# Pan Fyddwn Ni'n Tyfu



Pan oeddwn i'n fach, roedd mam yn gofalu am blant pobl eraill. Roedd yna un bachgen bach o'r enw David. Roeddwn i'n meddwl bod David yn anhygoel, roedd e mor ddoniol ac yn rhoi'r cwtsh gorau bob amser. Roeddwn i'n helpu mam i ofalu am David. Wrth i mi dyfu'n hŷn, sylweddolais fod pobl yn edrych ar David yn wahanol i'r ffordd roedden nhw'n edrych arnaf i, a doedden nhw ddim yn ei weld fel roeddwn i'n ei weld.

Roedd gan David Syndrom Down ac i mi dim ond bachgen bach anhygoel arall oedd o. Wnes i erioed ei drin yn wahanol a doeddwn i ddim yn hoffi pan oedd pobl eraill yn gwneud hynny. Roeddwn i'n amddiffynnol iawn o David.



Es yn fy mlaen i weithio ym maes gofal cymdeithasol, yn gweithio gyda phlant sydd ag anghenion arbennig. Roeddwn yn weithiwr proffesiynol ar draws ystod o wasanaethau yn cefnogi plant ag anghenion arbennig. Dyma pryd y gwnes i gyfarfod â Charlie. Roedd yn 11 mlwydd oed ac yn cael gofal seibiant dros nos. Roedd yna lawer o wasanaethau yn dod at ei gilydd i gefnogi Charlie i wneud y newid hwn mor hawdd â phosibl iddo.

Roedd Charlie yn y ganolfan seibiant gan ei fod yn rhoi cyfle iddo ymgysylltu yn y gymuned a gweithio ar ei sgiliau bywyd i sicrhau ei fod yn dod mor annibynnol â phosibl wrth iddo aeddfedu. Roedd Charlie yn fachgen ifanc gydag anghenion cymhleth, yn ddireidus iawn ac yn hoffi cadw pawb ar flaenau eu traed. Pan newidiais fy swydd, roeddwn i'n gweld eisiau gweithio gyda Charlie.



Yna, dechreuais swydd newydd ac fe gafodd Charlie ei neilltuo i fy llwyth achosion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bûm yn ei gefnogi ef a'i deulu i drawsnewid i wasanaethau oedolion. Pan gafodd Charlie ei roi ar fy rhestr i, roeddwn i'n teimlo'n gyffrous fy mod mewn cysylltiad ag ef eto ac yn gallu cefnogi ei deulu. Roedd ei fam a'i dad yn hapus i'm gweld i, a chefais gwtsh enfawr gan Charlie.

Ond fe wnes i ddysgu'n gyflym fod rhieni Charlie yn hynod bryderus ac yn ofnus o'r hyn a oedd gan y dyfodol i'w gynnig pan fyddai Charlie yn oedolyn ac yn defnyddio'r gwasanaeth i oedolion.

Mae plant ag anghenion cymhleth yn cael lefel uchel o gefnogaeth drwy gydol eu plentyndod ac mae teuluoedd yn tueddu i gael pecynnau gofal a chymorth sy'n darparu seibiant a gwasanaethau cymorth dyddiol i'r teulu. Roedd rhieni Charlie yn ofnus y

byddai holl gefnogaeth Charlie yn diflannu, y byddai'n teimlo ar goll ac ar ei ben ei hun ac y byddai ei holl gyfleoedd i ffynnu yn dod i ben pan fyddai'n 18 oed.



Roedden nhw'n teimlo ar goll hefyd. Fy rôl i oedd cydweithio â Charlie a'i rieni gan ddod â'r holl wasanaethau at ei gilydd i lunio cynllun ar gyfer dyfodol Charlie. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pontio i wasanaethau oedolion yn parhau i fod yn brofiad negyddol i bobl ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd cymhleth a'u teuluoedd, gan eu rhoi mewn perygl o ganlyniadau iechyd gwaeth fel oedolion (https://www.csp.org.uk/system/files/documents/2021-02).

Dangoswyd bod rhaglenni pontio da yn arwain at welliannau ystadegol arwyddocaol i ganlyniadau iechyd pobl ifanc (https://ayph-youthhealthdata.org.uk).

Bydd canlyniadau iechyd y plentyn fel oedolyn yn llawer mwy cadarnhaol os gwrandewir ar bobl ifanc a'u teuluoedd a sicrhau bod eu profiad o'r gwasanaeth pontio yn un cadarnhaol.

Hoffwn i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses o bontio wrando ar ofnau a phryderon teuluoedd a gwneud y broses yn un gadarnhaol fel y gall pobl ifanc gyflawni eu nodau a chael y canlyniad gorau posibl ar gyfer eu dyfodol.

